

Fforwm Defnyddwyr Ogwen

11 Tachwedd 2014

Presennol

Edward Jones	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)
Iwan Jones (cadeirydd)	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Gwyn Thomas	Blaen y Nant
Saskia Wardenier	Idwal Cottage
Mair Huws	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Dewi Davies	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Guto Roberts	Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Simon Rogers	Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Trystan Edwards	Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Carys Dafydd	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Rhys Evans	Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Hywel Roberts	Cyfoeth Naturiol Cymru
Martin Doyle	Plas y Brenin
Arwel Johnston	Tenant
Edwina Johnston	Tenant
Gareth Price	Scottish Power
Catrin Williams	Cyfieithydd
Arthur Griffiths	Cyfieithydd

Ymddiheuriadau

Emyr Williams; Jenny Crouch; Paula Roberts; Catrin Roberts; Iolo Tegid, Dewi Roberts; Andy Harbach; Mark Balaam (wedi gorffen gweithio gyda Chyngor Gwynedd)

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd a gofynnodd iddynt gyflwyno eu hunain.
2. Derbyniwyd nodiadau'r cyfarfod diwethaf gynhaliwyd ar Ebrill 3ydd am eu cywirdeb.
Nid oedd unrhyw fater yn codi nad oedd yn cael ei drafod ar yr agenda.

3. Sefyllfa ceir yn parcio ar y pafin wrth fynedfa'r Ganolfan.

Yn absenoldeb lolo Tegid oedd wedi gorfod ymddiheuro yn dilyn ymrwymiadau gwaith eraill, cafwyd trafodaeth ar y broblem diffyg lle i barcio sy'n bodoli yn ystod amseroedd prysur, gyda'r effaith mae hyn yn cael ar ddiogelwch. Yn benodol y prif bryder oedd bod ceir yn parcio ar ddwy ochr i'r A5 - gan ei gwneud yn beryglus i groesi'r ffordd. Yn ogystal dywedodd Guto Roberts fod y ceir yn rhwystro mynediad i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a theuluoedd hefo bygis . Trafodwyd sawl syniad gan gynnwys gostwng y cyfyngiad cyflymder i 40 neu osod goleuadau traffig.

Penderfynwyd y byddai'n fuddiol i gael ymweliad safle arall gydag lolo Tegid gyda Guto Roberts; Dewi Davies; Gwyn Thomas; Trystan Edwards; Arwel Johnson ac un o gynllunwyr y Parc Cenedlaethol yn mynychu. Carys Dafydd i drefnu. Nodwyd bod lolo Tegid yn brysur iawn ar hyn o bryd ac efallai y byddai ychydig o fisoedd cyn y byddai'n gallu mynychu. Cais iddo hefyd fynychu'r cyfarfod nesaf o'r Fforwm gydag opsiynau o beth y gellid ei wneud.

4. Tan ddaearu ceblau trydan

Roedd Geraint Price o Scottish Powers wedi dod i son am y cynllun tan ddaearu ceblau trydan. Rhoddodd gefndir i'r cynllun gan son am yr holl rwystrau oedd angen eu goresgyn cyn y gellid symud ymlaen hefo'r gwaith. Yr ardal sydd dan sylw yw o ymyl y grid gwartheg ar yr hen ffordd - mynd y tu ôl i'r adeiladau i ochr arall i'r A5. Y bwriad yw dechrau'r gwaith fis Mawrth - gan ei gwblhau cyn gwyliau'r Pasg. Bydd y trydan yn cael ei ddiffodd am ddiwrnod yn ystod y cyfnod gweithio - bydd y dyddiad yn cael ei bennu yn dilyn trafodaeth â'r rhai fydd yn cael eu heffeithio. Mewn ymateb i gwestiwn os byddai generadur ar gael yn ystod y cyfnod yma dywedodd nad oedd hyn yn bolisi gan y cwmni ar hyn o bryd. Bydd yr hen ffordd hefyd yn cau am rhai dyddiau. Bydd mapiau o'r gwaith arfaethedig ar gael. Cytunodd y byddai'n cysylltu gyda Carys Dafydd os oedd ganddo unrhyw ddiweddariadau i'w rhannu gyda'r grŵp.

5. Diweddariad ar weithgareddau diweddar yng Nghwm Idwal – Guto Roberts.

- Bydd dathlu 60mlynedd ers i Gwm Idwal gael ei ddynodi'n warchodfa natur yn digwydd tua'r 24 o Dachwedd (yn ddibynol ar argaeledd y gweinidog) ac fe fydd pawb o aelodau Fforwm defnyddwyr Ogwen yn cael gwahoddiad. Yn ystod y digwyddiad fe fydd dadorchuddio'r llechen gyda llun Evan Roberts ac fe fydd yn cael ei adleoli ar y llwybr.
- Bu ymgyrch yn ddiweddar ar i gael Cwm Idwal yn y 100 ardal geo fwyaf poblogaidd gan bobl ym Mhrydain, cafodd ei roi ar y rhestr fer dan yr adran tân a rhew..
- Bu Iolo Williams yn ffilmio yn y cwm yn ddiweddar - ar gyfer rhaglen ar warchodfeydd natur. Bydd y rhaglen yn cael ei darlledu ym mis Ionawr.
- Mae'r gwaith cyfalaf a wnaed dros y flwyddyn wedi cynnwys diogelu mawn drwy wneud mwy o waith ar y llwybrau. Gosod giatiau mochyn ar y llwybr – am eu bod yn fwy effeithlon am rwystro defaid.
- Mae wedi gofyn i ddyluniwr graffeg i ddylunio poster fydd yn ceisio dangos pa mor bwysig yw cadw cwn ar dennyn. Dywedodd Guto bod achosion o gwn yn lladd defaid wedi bod yn ddiweddar. Dywedodd y byddai arolwg arall yn digwydd y flwyddyn nesaf - ac y gallai'r canlyniadau gael eu defnyddio fel sail i wahardd cwn o'r cwm rhwng Mawrth a Medi.

6. Cynllun COPA – Bedwyr Ap Gwyn – Menter Iaith Conwy.

- Cyflwynodd Bedwyr ap Gwyn ei hun a rhoddodd gefndir i'r cynllun gan nodi'r cynnydd sydd wedi bod mewn pobl Cymraeg sy'n hyfforddi ac yn ymwneud â'r awyr agored ers dechrau'r cynllun 7 mlynedd yn ôl. Dywedodd y bydd yr elfen yma o'r cynllun yn dod i ben yn fuan gan fod bwlch rhwng diwedd y grantiau Ewropeaidd cyfredol a dechrau'r rownd nesaf.
- Aeth ymlaen i ddweud eu bod fel Menter yn cydweithio gydag asiantaethau eraill yn y maes megis y BMC a Phlas Y Brenin er mwyn creu dogfen fydd yn rhestru a dehongli enwau yn yr ardaloedd mynyddig. Byddant yn adrodd chwedlau lleol ac yn son am y bobl yn byw a gweithio yn yr ardaloedd hyn heddiw. Y bwriad yw creu mwy o barch at y tir a'r bobl sy'n byw yma.
- Bydd y Gynhadledd ar enwau llefydd oedd bod i gael ei chynnal fis hydref yn digwydd fis Chwefror yng Nglan-Ilyn.

7. Y sefyllfa gyfredol ar y safle - Edward Jones APCE

- Mae'r peiriant talu a pharcio yn weithredol ers rhai misoedd - yn dilyn problemau cychwynnol. Dyma'r unig beiriant o'i fath sy'n gweithio drwy gysylltu â'r we yn yng Nghymru. Fel rhan o'r system mae posibl gweld pryd mae pobl yn prynu ei tocynnau - mae nifer o bobl yn cyrraedd rhwng 6 a 8 yn y bore. Llai yn dod yn y pnanwn.
- Bydd y dogfennau terfynol ar gyfer cynllun asesiad amgylcheddol BREEAM yn cael eu cyflwyno yn y dyfodol agos. Mae hi'n edrych yn addawol i dderbyn dynodiad ardderchog dan y cynllun.
- Dal i fynd at ôl rhai man bethau nad yw'r contractwyr wedi eu cwblhau.
- Dewi Davies Uwch warden y gogledd hefo man gweithio yn yr adeilad bellach.
- Dehongli – rhaid cydnabod bod problemau wedi bod gyda'r elfennau dehongli ar y safle nid yw'r map 3d yn gweithio bob tro, mae problemau hefyd wedi bod hefo The 3d land mass doesn't always work; there have also been problems with the film. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi comisiynnu Owain Wyn o gwmni Burum i wneud awdit o ddehongli mewn gwahanol leoliadau gan gynnwys Ogwen.

Dywedodd Arwel Johnson fod angen mwy o bresenoldeb wardeiniaid yn yr adeilad - bod pobl yn gwerthfawrogi cael cyfarfod pobl wyneb yn wyneb. Does neb yma ar y penwythnosau.

Atebodd Mair Huws gan ddweud yn dilyn newidiadau diweddar sydd wedi bod yn y gwasanaeth na ellir gwarantu y byddai wardeiniaid ar y safle yn fwy cyson.

Fel ymateb i'r ffaith fod yr adeilad wedi cael ei gloi yn gynnar - dywedodd mai camddealltwriaeth oedd hynny. A bod staff sy'n gweithio ym Mhen y Pas yn ymwybodol yrŵan mae'r lanhawraig sydd yn cloi'r adeilad.

Dywedodd Martin Doyle fod yr adeilad yn edrych yn llwm ac anghroesawgar o'r tu allan, bod pobl ddim yn siŵr os oeddynt yn cael dod i mewn - nad oedd y lle'n ddigon gweledol. Aeth ymlaen i ddweud nad oedd y gofod yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial a bod dehongli sydd mor ddibynnol ar dechnoleg yn gorfod bod yn iawn.

Roedd cytuno bod y cyfrifiaduron yn 'crashio' ar brydiau - hyn am fod pobl yn rhoi eu cotiau gwlyb ar ben y map 3d weithiau - dro arall bydd plant yn pwysu nifer o fotymau ar yr un adeg.

Cafwyd trafodaeth ar sut y gellid gwella pethau - er enghraifft rhoi'r data ar 'loop' cael arddangosfeydd achlysurol; rhoi'r model 3d ar y wal - er mwyn rhyddhau mwy o ofod yn y stafell.

Dywedodd Mair Huws y byddai Naomi Jones yn gwerthfawrogi unrhyw awgrymiadau/syniadau - ac y byddai croeso danfon e-byst ati hi ac y byddai yn eu danfon ymlaen at Naomi.

Ychwanegodd Rhys Evans body ma anedd ffantastig - er bod pethau ddim yn gweithio bob tro - ac y dylem ddathlu'r adeilad a chydabod cymaint y mae pethau wedi gwella.

8. Adroddiad CAN

Cafwyd cyfle i drafod canfyddiadau adroddiad CAN gafodd ei wneud dros 2013/14. Soniwyd y byddai'n ddiddorol gwybod faint o bobl sydd yn mynd i fyny i Gwm Idwal o'i gymharu â faint sy'n dod i mewn i'r ganolfan. Efallai y byddai'n fuddiol gwneud arolwg arall. Dywedodd Mair Huws fod Paula Roberts o'r brifysgol wedi cynnig helpu gyda gwneud arolygon. Dywedodd y byddai'n cysylltu gyda hi.

9. Unrhyw fater arall.

- Gwell mynediad ar Rhaeadr Ogwen. Roedd cais wedi dod gan Mal Creasey i drafod y posibilrwydd o hwyluso gwell mynediad ar at y rhaeadr. Dywedodd Arwel Johnson bod mynediad at y rhaeadr bodoli erioed. Penderfynwyd trafod y mater ymhellach yn y cyfarfod nesaf gyda Mal Creasey yn bresennol.
- Dyfodol Bwthyn Ogwen. Dywedodd Tristan Edwards fod yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi bod yn llwyddiannus mewn ocsiwn yn ddiweddar yn sicrhau pryniant Ogwen Cottage. Dywedodd ei bod yn ddyddiau cynnar iawn ar hyn o bryd i adrodd ar unrhyw ddatblygiadau arfaethedig.
- Bydd y staff sydd ar hyn o bryd yn gweithio yn Tan y Maes yn symud i weithio o gefn yr adeilad. - gallai hyn fod o fudd i gael mwy o bresenoldeb wardeiniaid Efallai y byddai cyd weithio gyda phartneriaid er mwyn cynnig cyrsiau awyr agored - ond yn rhy gynnar i ddweud yn bendant. Dywedodd y byddai ganddo ddiddordeb clywed gan unrhyw un oedd yn gwybod beth oedd enw gwreiddiol Ogwen Cottage.
- Cytunodd i ddanfôn diweddariadau o bwys at y Fforwm drwy law Carys Dafydd.